



Canllawiau ar erlyn achosion sy'n
ymwneud â chyfathrebiadau a
anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol

Hydref 2016

Canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol

Cynnwys

| | |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol..... | 1 |
| Cyflwyniad..... | 2 |
| Egwyddorion Cyffredinol | 2 |
| RHAN A: Mathau o droseddau..... | 3 |
| Asesiad cychwynnol | 3 |
| Categori 1: Bygythiadau..... | 4 |
| Categori 2: Cyfathrebiadau yn targedu unigolion penodol | 5 |
| Categori 3: Torri gorchmynion llys a gwaharddiadau statudol..... | 9 |
| Categori 4: Cyfathrebiadau sy'n hynod sarhaus, anwedus, anllad neu ffug | 9 |
| RHAN B: Materion sy'n codi mewn troseddu Cyfryngau Cymdeithasol..... | 14 |
| Troseddau VAWG dros y rhyngwyd..... | 15 |
| Troseddau VAWG cyfryngau cymdeithasol Categori 4..... | 16 |
| Troseddau VAWG nad ydynt ar gyfryngau cymdeithasol | 16 |
| Llumanu..... | 16 |
| Troseddau casineb | 16 |
| Troseddau casineb cyfryngau cymdeithasol Categori 4 | 17 |
| Troseddau casineb penodol..... | 18 |
| Dwysau dedfryd | 18 |
| Llumanu..... | 19 |
| Proffiliau cyfryngau cymdeithasol ffug neu sarhaus..... | 19 |
| Tystion bregus sy'n teimlo dan fygythiad | 20 |
| Deddfwriaeth Trefn Gyhoeddus | 20 |
| Gorchmynion Ategol..... | 20 |
| Datganiadau Personol Dioddefwyr..... | 23 |
| Rhoi adroddiad am gam-drin ar gyfryngau cymdeithasol a'i atal..... | 24 |
| Cael tystiolaeth oddi ar gyfryngau cymdeithasol..... | 25 |
| Awdurdodaeth | 25 |
| Trefniadau trin | 26 |

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn sefydlu'r ymagwedd y dylai erlynyddion ddilyn wrth wneud penderfyniadau parthed achosion pan honnir y cyflawnwyd trosedd trwy anfon cyfathrebiad trwy gyfryngau cymdeithasol. Fe'u cynlluniwyd i roi cyngor clir i erlynyddion sydd wedi cael cais am naill ai benderfyniad cyhuddo neu gyngor cynnar i'r heddlu, yn ogystal ag wrth adolygu'r achosion hynny sydd wedi eu cyhuddo gan yr heddlu. Bydd cadw at y canllawiau hyn yn sicrhau y ceir ymagwedd gyson ledled y CPS.

Mae'r canllawiau yn delio â'r troseddau sy'n fwyaf tebygol o gael eu cyflawni trwy anfon cyfathrebiad trwy gyfryngau cymdeithasol. Mae "cyfryngau cymdeithasol" fel arfer yn cyfeirio at ddefnyddio dyfeisiadau electronig i greu, rhannu neu gyfnewid gwybodaeth, syniadau, lluniau a fideos ag eraill trwy [gymunedau rhithiol](#) a [rhwydweithiau](#). Ar gyfer dibenion y canllawiau hyn, mae'n cynnwys negeseuon e-bost a thestun a ffurfiau eraill o gyfathrebiadau electronig.

Mae'r canllawiau hyn yr un mor berthnasol i ail anfon (neu ail drydar/ rhannu) cyfathrebiad a phryd bynnag y byddant yn cyfeirio at anfon cyfathrebiad, dylid hefyd ddarllen y canllawiau fel rhai sy'n berthnasol i ail anfon cyfathrebiad. Fodd bynnag, am y rhesymau a sefydlir isod, bydd y cyd-destun ar gyfer anfon unrhyw gyfathrebiad yn berthnasol iawn.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â throseddau y gellir eu cyflawni oherwydd natur neu gynnwys cyfathrebiad a anfonwyd trwy gyfryngau cymdeithasol. Pan ddefnyddir cyfryngau cymdeithasol i ddim ond hwyluso trosedd sylweddol arall, dylai erlynyddion fwrw ymlaen dan y drosedd sylweddol dan sylw.

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn yn disodli'r canllawiau dros dro blaenorol ac maent yn weithredol ar unwaith.

Egwyddorion Cyffredinol

Dim ond os yw achos yn bodloni'r prawf a sefydlwyd yn y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron y gall erlynyddion ddechrau erlyniad. Mae dau gam i'r prawf hwn: y cyntaf yw'r gofyniad o ddigonolrwydd tystiolaethol ac mae'r ail yn ymwneud ag ystyried budd cyhoeddus.

O ran y cam tystiolaethol, rhaid i erlynydd fod yn fodlon fod yna ddigon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o gollfarn. Mae hyn yn golygu y byddai rheithgor (neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n eistedd ar ei ben ei hun) gwrthrychol, amhleidiol a chyfrifol, fyddai wedi derbyn cyfarwyddyd priodol ac yn gweithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gollfarnu. Mae'n brawf gwrthrychol yn seiliedig ar asesiad yr erlynydd o'r dystiolaeth (yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd ganddo ef neu hi am yr amddiffyniad).

Ni ddylai achos nad yw'n pasio'r cam tystiolaethol hwn fynd yn ei flaen, waeth pa mor sensitif neu ddifrifol ydyw.

Nid yw erioed wedi bod yn rheol y bydd erlyniad yn digwydd yn awtomatig unwaith y bodlonir y cam tystiolaethol. Ym mhob achos pan fo tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau erlyniad, mae'n rhaid i erlynyddion fynd yn eu blaenau i ystyried a oes angen erlyniad neu beidio er budd y cyhoedd.

Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau unigol ei hun. Ni ellir rhoi imiwnedd posibl rhag erlyniad troseddol fyth, ac ni ddylid darllen unrhyw beth yn y canllawiau hyn fel awgrym fel arall.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond wedi cwblhau'r ymchwiliad y dylai erlynyddion benderfynu a ydynt am erlyn neu beidio. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd bydd achosion pan fydd yn glir, cyn casglu ac ystyried yr holl dystiolaeth debygol, nad yw erlyniad o fudd cyhoeddus. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd erlynyddion yn penderfynu na ddylai'r achos fynd ymhellach.

Mae achosion sy'n ymwneud ag anfon cyfathrebiadau trwy gyfryngau cymdeithasol yn debygol o gael budd o weld ymgynghori cynnar rhwng yr heddlu ac erlynyddion, a rhoddir anogaeth i'r heddlu gysylltu â'r CPS yn gynnar yn eu hymchwiliadau.

RHAN A: Mathau o droseddau

Mae'r rhan hon yn ymdrin â'r troseddau a gyflawnir fel arfer trwy gyfryngau cymdeithasol ac mae'n dynodi pedwar categori penodol o droseddau. Rhoddir cyfarwyddyd manwl ar y dull i'w ddefnyddio i adolygu achosion sy'n dod dan gategori 4, yn arbennig sut i asesu'r camau tystiolaethol a budd cyhoeddus yn y Cod Prawf Llawn a pherthnasedd Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i'r troseddau hyn.

Asesiad cychwynnol

Dylai erlynyddion wneud asesiad cychwynnol o gynnwys y cyfathrebiad a'r ymddygiad dan sylw er mwyn gwahaniaethu rhwng:

Categori 1

Cyfathrebiadau a allai fod yn **fygythiadau** o drais i'r unigolyn neu ddifrod i eiddo.

Categori 2

Cyfathrebiadau sy'n **targedu unigolyn neu unigolion yn benodol** ac a all gyfateb i aflonyddu neu stelcio, ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, datgelu delweddau rhywiol preifat heb gydsyniad, trosedd dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, blacmel neu drosedd arall.

Categori 3

Cyfathrebiadau a all gyfateb i **dorri gorchymyn llys neu waharddiad statudol**. Gall hyn gynnwys:

- Troseddau camymddygiad aelod o reithgor dan Ddeddf Rheithgorau 1974 [adrannau 20A-G];
- Dirmyg dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981;
- Trosedd dan adran 5 o Ddeddf (Diwygio) Troseddau Rhywiol 1992;
- Torri gorchymyn ataliol; neu
- Dor-mechniäeth.

Rhaid i'r holl benderfyniadau cyhuddo (boed yn gadarnhaol neu negyddol) mewn achosion sy'n cynnwys honiadau dan Ddeddf Rheithgorau 1974 gael eu cyfeirio at Gynghorydd Cyfreithiol y

Cyfarwyddwr (DLA) i'w cymeradwyo (gweler: yr adran dan y teitl "Trefniadau Trin" ar ddiwedd y cyfarwyddyd hwn o ran sut y dylid gwneud hyn). Yna bydd rhaid cael caniatâd y Twrnai Cyffredinol i benderfynu erlyn yr achosion yma.

Mae angen caniatâd y Twrnai Cyffredinol hefyd ar gyfer achosion pan fu trosedd dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981 neu adran 5 Deddf (Diwygio) Troseddau Rhywiol 1992 a gallant gael eu hanfon at Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr os bydd angen cymorth.

Categori 4

Bydd cyfathrebiadau nad ydynt o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod angen eu hystyried ar wahân h.y. y rhai y gellid eu hystyried yn hynod sarhaus, anwedus, aflan neu ffug.

Fel dull cyffredinol, fel arfer bydd o fudd cyhoeddus i erlyn achosion sy'n dod dan Gategorïau 1, 2 neu 3 pan fyddant yn bodloni'r cam tystiolaeth o'r prawf a nodir yn y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron. Ar y llaw arall, bydd achosion sydd yn dod dan Gategori 4 yn amodol ar drothwy tystiolaethol uchel ac mewn sawl achos mae erlyniad yn annhebygol o fod o fudd cyhoeddus.

Rhoddir cyfarwyddyd manwl ar y dull i'w ddefnyddio wrth weithredu'r budd cyhoeddus mewn achosion Categori 4 yn yr adran ar droseddau Categori 4 isod. Mae'r adran hon hefyd yn esbonio gweithredu Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn achosion Categori 4.

Ar ôl nodi'r categori, dylai erlynyddion ddilyn y dull a sefydlwyd dan y pennawd perthnasol isod.

Categori 1: Bygythiadau

Gall cyfathrebiadau a allai fod yn fygythiadau o drais i'r person gyfateb i nifer o droseddau, gan gynnwys y rhai a nodir isod.

Bygythiad i ladd yn groes i adran 16 Deddf Troseddau yn erbyn yr Unigolyn 1861.

Gall cyfathrebiad sy'n bygwth neu a fwriadwyd i fygwth tyst neu aelod o reithgor gyfateb i drosedd o fygwth dan adran 51 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 os mai bwriad yr anfonwr oedd achosi i ymchwiliad neu i gwrs cyfiawnder gael eu hatal, eu gwyrddroi neu amharu arnynt.

Gallai bygythiadau eraill o drais i'r unigolyn gael eu hystyried dan ddarpariaethau Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, adran 4 yn benodol (creu ofn trais yn rhywun arall) neu 4A (stelcio sy'n cynnwys ofn trais neu ofid neu ofn difrifol), os ydynt yn cyfateb i ymddygiad sy'n cyfateb i aflonyddu neu stelcio.

Gallai bygythiadau o drais i'r unigolyn neu ddifrod i eiddo hefyd gael eu hystyried dan adran 1 Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988, sy'n gwahardd anfon cyfathrebiad electronig sy'n cyfleu bygythiad, neu adran 127 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 sy'n gwahardd anfon negeseuon "o natur fygythiol" trwy rwydwaith telathrebu cyhoeddus. Fodd bynnag, cyn bwrw ymlaen gydag erlyniad o'r fath, dylai erlynyddion ystyried geiriau'r Arglwydd Brif Ustus yn *Chambers v DPP* [2012] EWH2 2157 (Admin) pan ddywedodd:

“... nid yw neges nad yw’n creu ofn neu bryder yn y rhai y cyfathrebir y neges honno iddynt, neu y gellid disgwyl yn rhesymol y byddent yn ei gweld, o fewn [adran 127(i)(a)], am y rheswm syml nad yw’r neges yn creu bygythiad.” (Paragraff 30)

Pan fydd tystiolaeth o gasineb ar sail hil, crefydd, anabledd, tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol, dylai erlynyddion gyfeirio at yr adran am “Troseddau casineb” isod.

Os yw’r honiad yn cynnwys mater VAWG, dylai erlynyddion gyfeirio at yr adran ar “VAWG”, isod. Rhaid i unrhyw fygythiad terfysgol neu gyfathrebiad arall o’r fath gael eu cyfeirio at yr Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth yn ctd@cps.gsi.gov.uk.

Categori 2: Cyfathrebiadau yn targedu unigolion penodol

Os yw cyfathrebiad(au) a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol yn targedu unigolyn neu unigolion penodol, byddant yn cael eu hystyried dan y categori hwn os yw’r cyfathrebiad(au) a anfonwyd yn dod o fewn cwmpas:

- Adrannau 2, 2A, 4 neu 4A o Ddeddf Diogelu Rhag Aflonyddu 1997 ac yn cyfateb i’r drosedd o aflonyddu neu stelcio; neu
- Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 ac yn cyfateb i drosedd o ymddygiad sy’n rheoli neu orfodi; neu
- Adran 33 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 ac yn cyfateb i drosedd o ddatgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd; neu
- Droseddau eraill sy’n ymwneud â chyfathrebiadau yn targedu unigolion penodol, fel troseddau dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 neu Flacmel.

Mewn achosion o’r fath efallai bydd y troseddau yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, pan fydd mwy nag un digwyddiad, neu fod y digwyddiad yn rhan o gwrs o ymddygiad a gyfeiriwyd at unigolyn, gall cyhuddiad o aflonyddu, stelcio neu ymddygiad sy’n rheoli neu orfodi fod yn briodol. Bydd ar erlynyddion, felly, angen asesu ffeithiau’r achos yn ofalus i bennu pa un yw’r cyhuddiad mwyaf addas a dylid cyfeirio hefyd at y cyfarwyddyd cyfreithiol perthnasol.

Pan fydd tystiolaeth o gasineb ar sail hil, crefydd, anabledd, tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol, dylai erlynyddion gyfeirio at yr adran am “Troseddau casineb” isod.

Os yw’r honiad yn cynnwys mater VAWG, dylai erlynyddion gyfeirio at yr adran ar “VAWG”, isod.

Aflonyddu neu stelcio

Gall aflonyddu gynnwys ymdrechion parhaus i orfodi cyfathrebiadau neu gyswllt nas dymunir ar unigolyn mewn modd y gellid disgwyl y byddai’n achosi gofid neu ofn mewn unrhyw unigolyn rhesymol. Gall gynnwys aflonyddu gan ddau neu fwy o ddiffynyddion yn erbyn unigolyn neu aflonyddu yn erbyn mwy nag un unigolyn.

Nid yw stelcio wedi ei ddiffinio mewn statud ond rhoddir rhestr o ymddygiad a all gael ei gyfrif yn stelcio yn adran 2A (3) Deddf Diogelu Rhag Aflonyddu 1997. Mae’r rhestr hon yn cynnwys cysylltu, neu geisio cysylltu ag unigolyn trwy unrhyw gyfrwng.

Wrth ystyried trosedd dan Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, bydd angen i'r erlyniad brofi bod y diffynnydd wedi dilyn cwrs o ymddygiad oedd yn cyfateb i aflonyddu neu stelcio. Mae'r Ddeddf yn nodi bod "cwrs ymddygiad" yn gorfod cynnwys ymddygiad ar ddau achlysur neu fwy.

Rhaid i'r ymddygiad dan sylw ffurfio dilyniant o ddigwyddiadau a rhaid iddo beidio â bod yn ddau ddigwyddiad pell oddi wrth ei gilydd (*Lau v DPP (2000)*, *R v Hills (2000)*). Nid oes raid i bob gweithred unigol sy'n ffurfio rhan o'r cwrs o ymddygiad fod yn ddigon difrifol i fod yn drosedd ynddi ei hun; ond, lleiaf yn y byd o ddigwyddiadau sydd, mwyaf difrifol y bydd raid i bob un fod i'r cwrs ymddygiad gyfateb i aflonyddu: *Jones v DPP [2011] 1 W.L.R. 833*.

Dylai erlynyddion ystyried y gall cwrs ymddygiad yn aml gynnwys amrywiaeth o wahanol ymddygiad nas dymunir tuag at unigolyn a gall cyfathrebiad a anfonir trwy'r cyfryngau cymdeithasol fod yn ddim ond un modd o ddangos hyn. Pan fydd unigolyn yn derbyn cyfathrebiadau nas dymunir gan unigolyn arall trwy gyfryngau cymdeithasol yn ychwanegol at ymddygiad arall nas dymunir, dylai'r holl ymddygiad gael ei ystyried gyda'i gilydd gan yr erlynydd wrth bennu a ellir canfod cwrs o ymddygiad neu beidio.

Os oes tystiolaeth bod trosedd o stelcio neu aflonyddu wedi cael ei chyflawni a bod y cyfathrebiad yn targedu unigolyn neu unigolion ar sail eu hil neu grefydd, anabledd, tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol dylai erlynyddion gyfeirio at yr adran ar "Troseddau casineb" isod.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y troseddau aflonyddu neu stelcio yng Nghanllaw Cyfreithiol y CPS ar [Stelcio ac Aflonyddu](#).

Ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi

Gall cyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol ar eu pen eu hunain, neu gydag ymddygiad arall, gyfateb i drosedd o Ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi mewn perthynas deuluol neu bersonol dan Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Daeth y drosedd i rym ar 29 Rhagfyr 2015 ac nid oes iddi rym ôl-syllol.

Dim ond i droseddwyr a dioddefwyr y mae cysylltiad personol rhyngddyn nhw: mewn perthynas bersonol gnawdol; neu eu bod yn byw gyda'i gilydd a'u bod wedi bod mewn perthynas bersonol gnawdol; neu eu bod yn byw gyda'i gilydd ac yn aelodau o'r un teulu y mae'r drosedd yn berthnasol.

Rhaid i'r ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi dan sylw fod yn cael ei ailadrodd neu'n barhaus, rhaid iddo gael effaith ddifrifol ar y dioddefwr, a rhaid i'r troseddwr wybod neu fe ddylai fod yn gwybod y bydd yr ymddygiad yn cael effaith o'r fath. Mae "effaith ddifrifol" yn un sydd naill ai'n achosi i'r dioddefwr ofni, ar ddau achlysur o leiaf, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn, neu ei fod yn achosi ofn neu ofid difrifol i'r dioddefwr sydd yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ei weithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gall y patrymau ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli gynnwys: ynysu unigolyn oddi wrth ei ffrindiau a'i deulu, a all gynnwys cyfyngu eu mynediad at gyfryngau cymdeithasol; ei amddifadu o anghenion sylfaenol; monitro ei amser; rheoli ble y gall fynd, pwy y gall eu gweld, beth i'w wisgo a phryd y caiff gysgu. Gall hefyd gynnwys rheoli arian, fel dim ond caniatáu swm bychan iawn i unigolyn, neu atal rhywun rhag cael dulliau teithio neu rhag gweithio.

Nid dim ond yn y cartref y gall ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi ddigwydd. Er enghraifft, gall y troseddwr olrhain a monitro lleoliad y dioddefwr trwy gyfathrebu â'r dioddefwr, trwy e-bost,

negeseuon testun neu gyfryngau cymdeithasol, a / neu trwy ddefnyddio meddalwedd ysbïo a meddalwedd arall.

Sylwer, pan na fydd y drosedd hon yn berthnasol, gall y troseddau aflonyddu neu stelcio fod yn berthnasol. Er enghraifft:

- Nid yw'r troseddwr a'r dioddefwr mewn perthynas bellach ac nid ydynt yn byw gyda'i gilydd. Ond, mae'r troseddwr yn parhau i ddangos ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi tu allan i'r briodas, y berthynas neu'r cyfnod o gyd-fyw.
- Nid yw'r troseddwr a'r dioddefwr mewn perthynas barhaus ac nid ydynt yn aelodau o'r un teulu, fel sy'n cael ei ddiffinio dan y Ddeddf.

Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai erlynyddion ystyried ffeithiau'r achos yn ofalus, i bennu a yw'r dystiolaeth yn sefydlu'r troseddau aflonyddu neu stelcio.

Am ragor o wybodaeth dylai erlynyddion gyfeirio at y cyfarwyddyd cyfreithiol ar [Ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi](#) a'r cyfarwyddyd cyfreithiol am [Gam-drin domestig](#).

Datgelu delweddau rhywiol preifat heb gydsyniad

Mae adran 33 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, yn creu trosedd newydd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat heb gydsyniad unigolyn sy'n ymddangos ynddynt gyda'r bwriad o achosi gofid i'r unigolyn hwnnw neu honno.

Gelwir y drosedd ar lafar yn "bornograffi dial", ac mae'n derm eang, sydd fel arfer yn cyfeirio at weithredoedd cynbartner, sy'n uwchlwytho ar y rhyngwyd, neu yn postio ar safle rhwydweithio cymdeithasol, neu yn rhannu trwy neges testun neu e-bost, ddelweddau rhywiol personol iawn o'r dioddefwr, i beri embaras neu gywilydd i'r dioddefwr.

Bydd y drosedd yn cynnwys unrhyw un sy'n ail drydar neu anfon ymlaen heb ganiatâd, ffotograff neu ffilm rywiol breifat, os mai'r bwriad, neu un o'r bwriadau, oedd achosi gofid i'r unigolyn a ddarlunnir yn y ffotograff neu ffilm, nad oedd wedi cytuno iddo/iddynt gael eu datgelu. Ond, ni fyddai unrhyw un sy'n anfon y neges oherwydd ei fod ef neu hi yn credu ei fod yn ddoniol yn cyflawni'r drosedd.

Mae Adrannau 34 a 35 o'r Ddeddf yn diffinio "datgelu", "ffotograff neu ffilm", "preifat" a "rhywiol".

Daeth y drosedd statudol i rym ar 13 Ebrill 2015 ac nid oes iddi rym ôl-syllol.

Rhoddir rhagor o gyfarwyddyd yn y [Canllawiau ar erlyn y drosedd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau preifat rhywiol](#).

Wrth asesu a yw erlyniad yn ofynnol er budd y cyhoedd, rhaid i erlynyddion ddilyn y dull a nodir yn y canllawiau y cyfeirir atynt uchod yn ogystal â'r egwyddorion ehangach a nodir yn y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron. Un ffactor a all gyfiawnhau ystyriaeth benodol yw cyfraniad posibl gan dramgwyddwyr ifanc neu anaeddfed. Efallai na fydd plant yn sylweddoli beth yw'r niwed posibl a difrifoldeb eu cyfathrebiadau ac felly dylid rhoi cryn bwysau ar oed ac aeddfedrwydd y sawl a amheuir, yn arbennig os yw dan 18 oed.

Pan fydd rhannu delweddau personol iawn heb gydsyniad wedi ei chyflawni cyn 13 Ebrill 2015, dylid ystyried a yw'r cyfathrebiad dan sylw yn ddifrifol o sarhaus, anwedus, aflednais neu ffug, ac felly gellid erlyn dan un o'r Deddfau Cyfathrebiadau: gweler Categori 4 isod.

Pan all y delweddau fod wedi cael eu tynnu pan oedd y dioddefwr dan 18 oed, dylai erlynyddion ystyried a gyflawnwyd unrhyw droseddau dan adran 1 o Ddeddf Diogelu Plant 1978 (cymryd, dosbarthu, meddiannu neu gyhoeddi ffotograffau anwedus o blentyn) neu dan adran 160 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (meddiant o lun anwedus o blentyn). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y cyfarwyddyd cyfreithiol am Ddelweddau anwedus o blant.

Ond, dylid bod yn ofalus wrth ystyried unrhyw achosion o anfon negeseuon rhywiol, "sexting", sy'n cynnwys delweddau o unigolion dan 18 oed. Fel arfer mae anfon negeseuon rhywiol yn cyfeirio at rannu delweddau anghyfreithlon, fideos neu gynnwys arall rhwng dau neu fwy o bobl. Gall anfon negeseuon rhywiol gynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, o ddau blentyn o'r un oed yn fras sydd mewn perthynas yn rhannu delweddau trwy gytundeb i enghreifftiau o gam-fanteisio, gwastrodi a bwlio plant i rannu delweddau, a all yn eu tro gael eu rhannu gyda chyfoedion neu oedolion heb eu cydsyniad.

Er na fyddai budd cyhoeddus fel arfer o erlyn rhannu delwedd trwy gytundeb rhwng dau o blant o oedran tebyg mewn perthynas, gall erlyniad fod yn addas mewn sefyllfaoedd eraill, fel y rhai sy'n cynnwys cam-fanteisio, gwastrodi neu fwlio. Yn ychwanegol at y troseddau a amlinellir uchod, gellir ystyried y drosedd o Achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol dan adran 8 (plentyn dan 13) neu adran 10 (plentyn) Deddf Troseddau Rhywiol 2003: gweler isod dan "Troseddau eraill".

[Sylwer os bydd adran 15A y Ddeddf Troseddau Rhywiol, Cyfathrebu rhywiol gyda phlentyn, yn dod i rym, gall hyn gael ei ddefnyddio i erlyn achosion o anfon negeseuon rhywiol rhwng oedolyn ac unigolyn dan 16 oed.]

Troseddau eraill sy'n ymwneud â chyfathrebiadau sy'n targedu unigolion penodol

Gall cyfathrebiadau dargedu unigolyn penodol a chynnwys troseddau heblaw'r rhai a nodir uchod. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai erlynyddion geisio erlyn y drosedd sylweddol, pan fydd digon o dystiolaeth i wneud hynny.

Pan ddefnyddir delweddau personol neu gyfathrebiadau eraill i orfodi dioddefwyr i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau rhywiol, neu wrth ymdrechu i wneud hynny, dylid ystyried troseddau eraill dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, fel:

- Adran 4, Achosi gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad, os bydd gorfodi oedolyn wedi arwain at weithgaredd rhywiol.
- Adranau 8 (plentyn dan 13 oed) a 10 (plentyn), Achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol: 'achosi' gweithgaredd os yw gorfodaeth wedi arwain at weithgaredd rhywiol; a 'chymell' gweithgaredd o'r fath os nad yw.
- Adran 15, Cyfarfod plentyn yn dilyn gwastrodi rhywiol.
- Adran 62, Cyflawni trosedd gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rhywiol, os na fydd gweithgaredd wedi digwydd ond bod dystiolaeth glir y bwriadwyd i drosedd arwain at drosedd rhywiol arall.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am y troseddau hyn yn y cyfarwyddyd cyfreithiol am [Dreisio a throseddau rhywiol](#).

Pan ddefnyddir delweddau personol iawn neu gyfathrebiadau eraill i fygwth a gosod gofynion ar unigolyn, dylai erlynyddion ystyried a yw'r drosedd blacmel yn berthnasol. Er enghraifft, "blacmel camera gwe", pan fydd dioddefwyr yn cael eu denu i dynnu eu dillad o flaen eu camera gwe, a chyflawni gweithredoedd rhywiol weithiau, ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu chwilio am gariad ar-lein, gan roi cyfle i'r troseddwr recordio fideo. Bydd bygythiad wedyn yn cael ei wneud i gyhoeddi'r fideo, gyda honiad ffug efallai o bedoffilia, oni bai bod arian yn cael ei dalu. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall fod yn addas cyhuddo o flacmel neu o ymgais i flacmelio.

Categori 3: Torri gorchmynion llys a gwaharddiadau statudol

Gall gorchmynion llys a gwaharddiadau statudol fod yn berthnasol i'r rhai sy'n cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i eraill. Felly, mae angen i unrhyw gyfathrebu a wneir trwy gyfryngau cymdeithasol allai fod yn groes i orchymyn llys neu waharddiad statudol gael ei ystyried dan y ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Troseddau dan adrannau 20A-G o Ddeddf Rheithgorau 1974, fel datgelu gwybodaeth a gafwyd trwy ymchwil i aelod arall o'r rheithgor a datgelu gwybodaeth yn ymwneud â thrafodaethau'r rheithgor (pan oedd y rheithgor wedi tyngu llw ar neu ar ôl 13 Ebrill 2015);
- Deddf Dirmyg Llys 1981 (bydd hyn yn cynnwys camymddygiad gan aelodau'r rheithgor nad yw wedi ei gynnwys dan y troseddau statudol, ac am ddatgelu trafodaethau rheithgor pan fydd rheithgor wedi tyngu llw cyn 13 Ebrill 2015);
- Adran 5 Deddf (Diwygio) Troseddau Rhywiol 1992, sy'n ei gwneud yn drosedd i gyhoeddi deunydd allai arwain at adnabod achwynydd trosedd rywiol; a
- Chyfyngiadau adrodd awtomatig a dewisol yn ymwneud ag unigolion dan 18 oed yn a49 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ac a45 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999.

Mewn achosion o'r fath, dylai erlynyddion ddilyn Canllaw Cyfreithiol perthnasol y CPS ar [Droseddau Camymddygiad Rheithwyr](#) a [Dirmyg Llys a Chyfyngiadau Adrodd](#). Sylwer ar y gofyn i'r holl benderfyniadau cyhuddo mewn troseddau Deddf Rheithgorau gael eu cyfeirio at Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr (DLA) i'w cymeradwyo cyn gofyn am ganiatâd y Twrnai Cyffredinol. Dylai atgyfeiriadau at Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr fod yn unol â'r weithdrefn a nodir yn yr adran dan y teitl "Trefniadau Trin" ar ddiwedd y cyfarwyddyd hwn.

Bydd angen cydsyniad y Twrnai Cyffredinol hefyd ar gyfer achosion o ddirmyg a dan a.5 Deddf (Diwygio) Troseddau Rhywiol 1992.

Dylai erlynyddion hefyd ystyried a yw'r cyfathrebiad dan sylw wedi torri gofynion gorchymyn arall, fel Gorchymyn Rhwystro, neu a fyddai'n cyfateb i dorri mechnïaeth.

Categori 4: Cyfathrebiadau sy'n hynod sarhaus, anwedus, anllad neu ffug

Fel arfer bydd cyfathrebiadau sy'n hynod sarhaus, yn anwedus, anllad neu ffug yn cael eu hystyried dan adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 neu dan adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Dylai erlynyddion nodi:

- Mae'r darpariaethau yma hefyd yn gwahardd cyfathrebiadau sy'n cyfleu bygythiad (a.1 Deddf 1988] neu sydd o natur fygythiol (a.127 Deddf 2003) ond byddai'r rhain bron bob amser yn dod dan gategori 1 ac felly ni chyfeirir atynt ymhellach yn yr adran hon o'r cyfarwyddyd.
- Efallai y bydd yn fwy addas erlyn rhai cyfathrebiadau anweddus neu anllad yn fwy priodol dan ddeddfwriaeth arall, a all gynnwys cosbau mwy difrifol, yn hytrach na throedd cyfathrebiadau. Er enghraifft, yn *R v GS* [2012] EWCA Crim 398, cyhuddwyd y diffynnydd o gyhoeddi erthygl anllad yn groes i adran 2(1) Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959, parthed sgwrs ar y rhyngwyd gydag un unigolyn arall, yn ymwneud â gweithredoedd rhywiol ffansiol, llosgachol, sadistig a phedoffeil ar blant ifanc a phlant ifanc iawn.

Mae Adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Bygythiol 1988 yn gwahardd anfon cyfathrebiad electronig sy'n anweddus neu'n hynod sarhaus, neu sy'n ffug, neu y mae'r anfonwr yn credu ei fod yn ffug os mai diben neu un o ddibenion yr anfonwr yw achosi gofid neu bryder i'r derbynnydd. Anfon yw'r drosedd felly nid oes gofyniad cyfreithiol i'r cyfathrebiad gyrraedd y derbynnydd arfaethedig. Ystyriwyd amodau adran 1 yn *Connolly v DPP* [2007] 1 ALL ER 1012 ac fe ddywedwyd fod "anweddus neu hynod sarhaus" ("indecent or grossly offensive") yn eiriau Saesneg cyffredin. Diwygiodd Adran 32 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 adran 1 gan wneud y drosedd yn drosedd y naill ffordd neu'r llall a chynyddu'r gosb waethaf posibl i 2 flynedd o garchar am droseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl 13 Ebrill 2015. Roedd y diwygiad hwn yn rhoi mwy o amser i ymchwilio, a chosb fwy difrifol ar gael mewn achosion addas.

Mae Adran 127 Deddf Cyfathrebu 2003 yn ei gwneud yn drosedd i anfon neges neu fater sy'n "hynod sarhaus" neu a "nodwedd anweddus neu anllad" neu i achosi i neges o'r fath gael ei anfon trwy "rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus". Mae'r un adran hefyd yn darparu ei bod yn drosedd anfon neges ffug "i'r diben o achosi blinder, anghyfleustra neu bryder diangen i rywun arall" neu achosi i neges o'r fath gael ei anfon. Rhaid i'r diffynnydd naill ai fwriadu i'r neges fod yn sarhaus iawn, anweddus neu aflodnais neu o leiaf fod yn ymwybodol ei fod felly. Gellir casglu hyn o eiriad y neges neu o adnabyddiaeth y diffynnydd o'r derbynnydd tebygol (*DPP v Collins* [2006] UKHL 40). Cyflawnir y drosedd trwy anfon y neges. Nid oes unrhyw ofyniad fod unrhyw un yn gweld y neges neu'n cael ei dramgwyddo ganddo. Trosedd ddiannod yn unig yw a127, gydag uchafswm cosb o 6 mis o garchar. Ond, gall erlyniadau dan adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 gael eu dwyn hyd at dair blynedd o gyflawni'r drosedd, cyn belled â bod hyn hefyd cyn pen 6 mis ers i'r erlynydd gael gwybod am ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau camau cyfreithiol: a51 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015.

Yn *Chambers v DPP* [2012] EWHC 2157 (Admin), roedd y Llys Adrannol o'r farn, gan fod neges a anfonwyd trwy Twitter yn hygyrch i bawb sydd â mynediad i'r rhyngwyd, ei fod yn neges a anfonwyd trwy "rwydwaith cyfathrebiadau electronig cyhoeddus". Gan fod nifer o gyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol yr un mor hygyrch i bawb sydd â mynediad i'r rhyngwyd, mae'r un peth yn berthnasol i unrhyw gyfathrebiadau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i unrhyw beth a wnaed wrth ddarparu gwasanaeth rhaglen o fewn ystyr y Ddeddf Darlledu 1990.

Gall y rhai sy'n annog eraill i gyflawni trosedd cyfathrebiadau gael ei gyhuddo o annog trosedd dan Ddeddf Troseddau Difrifol 2007: er enghraifft, annog i anfon neges trydar neu ail drydar neges sarhaus iawn; neu greu hashtag difriol; neu roi gwybodaeth bersonol ar gael, fel bod unigolion yn cael eu targedu yn haws gan eraill. Gall anogaeth o'r fath weithiau arwain at ymgyrch aflonyddu neu "ymgasglu rhithiol" neu bentyrnu enllib, lle mae nifer o unigolion yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon i sarhau unigolyn arall, fel arfer oherwydd eu bod yn gwrthwynebu barn yr unigolyn hwnnw.

Y Trothwy Uchel ar y Cam Tystiolaethol

Mae trothwy uchel y bydd yn rhaid ei gyrraedd cyn y bydd y cam tystiolaethol yn y Cod i Erlynyddion y Goron (y Cod) yn cael ei fodloni. Yn ychwanegol, hyd yn oed os bydd y trothwy uchel yn cael ei gyrraedd, mewn sawl achos mae erlyniad yn annhebygol o fod yn angenrheidiol er budd y cyhoedd. Gweler yr adrannau pellach isod ar Y Budd Cyhoeddus ac Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn *Chambers v DPP* [2012] EWHC 2157 (Admin), fe gadarnhaodd yr Arglwydd Brif Ustus y:

“Dylai, a heb os fe fydd, sylwadau dychanol, neu iconoclastig, neu ddigywilydd, mynegi barn amhoblogaidd neu anffasiynol am faterion difrifol neu ddibwys, cellwair neu hiwmor, hyd yn oed os yw’n atgas i rai neu’n boenus i’r rhai sy’n destun iddo yn parhau ar ei lefel arferol, heb ei leihau o gwbl gan [adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003].”

Atgoffir erlynyddion mai’r hyn sy’n waharddedig dan adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yw anfon cyfathrebiad sy’n hynod sarhaus. Rhaid i gyfathrebiad a anfonwyd fod yn fwy na dim ond sarhaus i fod yn groes i gyfraith droseddol. Nid yw’r ffaith bod y cynnwys a fynegir yn y cyfathrebiad yn ddi-chwaeth, dadleuol neu amhoblogaidd, ac y gallai achosi tramgwydd i unigolion neu gymuned benodol, ynddo’i hun yn ddigon o reswm i droi at gyfraith droseddol. Fel yr esboniodd yr Arglwydd Bingham yn *DPP v Collins*:

- “Ni ellir cael pren mesur ar gyfer bod yn hynod sarhaus heblaw trwy ddefnyddio safonau cyfoes rhesymol o oleuedig, ond heb fod yn berffaith, yng nghyswllt y neges benodol a anfonir yn ei gyd-destun penodol. Y prawf yw a yw neges wedi ei roi mewn geiriau a all greu tramgwydd difrifol i’r rhai y mae’n ymwneud â nhw.”
- “Rhaid i’r Ynadon ddefnyddio safonau cymdeithas aml-hil agored a chyfiawn”.
- “Y cwestiwn yw a yw.... [y diffynnydd] wedi defnyddio iaith sydd tu hwnt i’r hyn a oddefir yn ein cymdeithas”.
- “[A oes unrhyw beth] yng nghynnwys neu dôn [y] negeseuon i liniaru neu feddalu effaith yr iaith mewn unrhyw ffordd”?

Cyd-destun a dull

Mae cyd-destun yn bwysig a dylai erlynyddion ystyried y ffaith fod y cyd-destun lle bydd dialog cyfryngau cymdeithasol rhyngweithiol yn digwydd yn dra gwahanol i’r cyd-destun lle bydd cyfathrebiadau eraill yn digwydd. Mae mynediad yn hollbresennol ac ar unwaith. Mae cellwair, jôcs a sylwadau sarhaus yn gyffredin ac yn aml yn ddigymell. Gallai cyfathrebiadau a fwriedir ar gyfer rhai gyrraedd miliynau. Fel y nododd Eady J yn achos sifil *Smith v ADVFN* [2008] 1797 (QB) parthed sylwadau ar fwrdd bwletin ar y rhyngwyd:

“... [maent] fel cyfraniadau i sgwrs anffurfiol (y gyfatebiaeth a nodir ar adegau yw pobl yn sgwrsio mewn bar) y mae pobl yn eu nodi cyn symud ymlaen; yn aml maent yn ddiatal, yn hamddenol a heb ystyriaeth; mae’r rhai sy’n cymryd rhan yn ymwybodol o hyn ac yn disgwyl elfen benodol o ffraethineb neu ‘roi a derbyn’.”

Yn erbyn y cefndir hwnnw, ni ddylai erlynyddion fwrw ymlaen ag achosion dan adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 heblaw pan fyddant yn fodlon bod digon o dystiolaeth bod y cyfathrebiad dan sylw yn fwy na:

- Sarhaus, ysgytiol neu arswydus; neu
- Ddychanol, iconoclastig neu sylw digywilydd; neu
- Mynegiant o farn amhoblogaidd neu anffasiynol am faterion difrifol neu ddibwys, neu gellwair neu hiwmor, hyd yn oed os yw'n ddi-chwaeth i rai neu'n boenus i'r rhai sy'n destun iddo.

Os ydynt wedi eu bodloni o hyn, dylai erlynyddion fynd ymlaen i ystyried a oes angen erlyniad er budd cyhoeddus.

Y Budd Cyhoeddus

Bob dydd, anfonir nifer o filiynau o gyfathrebiadau trwy gyfryngau cymdeithasol ac mae gweithredu adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yng nghyswllt sylwadau o'r fath yn creu'r potensial y gall nifer fawr iawn o achosion gael eu herlyn gerbron y llysoedd. O'u hystyried ar y cyd, er enghraifft, mae'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol canlynol yn debygol o gynnwys cannoedd o filoedd o gyfathrebiadau bob mis: Facebook; Twitter; LinkedIn; YouTube; WhatsApp; Snapchat; Instagram a Pinterest.

Dan yr amgylchiadau hyn mae potensial am effaith dychrynlyd ar ryddid i fynegi barn a dylai erlynyddion arfer gofal sylweddol cyn dod â chyhuddiadau dan adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adran 127 Deddf Cyfathrebu 2003. Gweler yr adran isod ar Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Wrth asesu a yw erlyniad yn ofynnol er budd y cyhoedd ar gyfer achosion sy'n dod dan Gategori 4, rhaid i erlynyddion ddilyn y dull a nodir yn y canllawiau hyn yn ogystal â'r egwyddorion ehangach a nodir yn y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron (y Cod).

Dylid dilyn y dull canlynol mewn achosion Categori 4:

- Wrth ystyried y cwestiynau budd cyhoeddus a nodir ym mharagraff 4.12 o'r Cod, dylai erlynyddion roi ystyriaeth arbennig i baragraff 4.12(c) a'r cwestiwn a ofynnir am yr amgylchiadau a'r niwed sy'n cael ei achosi i'r dioddefwr pan fydd y cyfathrebiad yn cael ei dargedu ar unigolyn penodol. Os oes tystiolaeth glir o fwriad i achosi trallod neu ofid, dylai erlynyddion bwysu a mesur yr effaith ar y dioddefwr yn ofalus, yn arbennig:
 - Pan fydd elfen o drosedd casineb yn y cyfathrebiad(au): gweler yr adran ar Droseddau casineb isod.
 - Pan oedd y dioddefwr ar y pryd yn gwasanaethu'r cyhoedd.
 - Pan fydd ymosodiadau wedi eu trefnu gan wahanol bobl neu pan fydd ymgyrch o sarhau neu aflonyddu yn erbyn y dioddefwr, y cyfeirir ato weithiau fel "ymgasglu rhithiol".
 - Pan dargedir y dioddefwr fel ymateb pan fydd y dioddefwr wedi rhoi adroddiad am drosedd arall.
 - Pan fydd unigolyn a gollfarnwyd am drosedd yna yn cysylltu â dioddefwr y drosedd, neu ei ffrindiau neu deulu.
 - Pan fydd y drosedd yn cael ei hailadrodd.
- Dylid rhoi cryn bwysau ar oed ac aeddfedrwydd y sawl a amheuir, yn arbennig os ydynt dan 18 oed: gweler paragraff 4.12(d) o'r Cod. Efallai na fydd plant yn gwerthfawrogi'r niwed

posibl a difrifoldeb eu cyfathrebiadau ac anaml iawn fydd erlyniad yn debygol o fod er budd y cyhoedd.

Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Gan fod adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn aml yn cysylltu ag Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rydym yn atgoffa erlynyddion bod yn rhaid dehongli'r darpariaethau hyn yn gyson gyda'r egwyddorion rhyddid i fynegi barn yn Erthygl 10, sy'n darparu fod:

“Gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Bydd yr hawl hwn yn cynnwys y rhyddid i goleddu barnau ac i dderbyn a dosbarthu gwybodaeth a syniadau heb amhariad gan awdurdod cyhoeddus a heb ystyried ffiniau ...”

Fel yr eglurodd y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd, mae Erthygl 10 yn diogelu nid yn unig lefaru sy'n cael derbyniad da ac yn boblogaidd, ond hefyd lefaru sy'n sarhaus, ysgytiol neu aflonyddus (*Sunday Times v UK* (No 2) [1992] 14 EHRR 229):

“Mae rhyddid i lefaru yn cyfateb i un o'r sylfeini allweddol mewn cymdeithas ddemocrataidd ... mae'n berthnasol nid yn unig i “wybodaeth” neu “syniadau” sy'n cael derbyniad ffafriol neu'n cael eu hystyried i fod yn ddiniwed neu fel mater nad yw'n ennyn ymateb, ond hefyd y rhai sy'n sarhaus, ysgytiol neu'n aflonyddu ...”

Mae'r Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd hefyd wedi pennu bod y cyfle i erlyn yn gyfyng o ran areithiau neu ddadlau gwleidyddol ar faterion sydd o fudd i'r cyhoedd: *Sener v Turkey* [2003] 37 EHRR 34.

Nid yw rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth yn hawliau absoliwt. Gallant gael eu cyfyngu ond dim ond pan ellir dangos fod cyfyngiad yn:

- a) Angenrheidiol; a
- b) Chymesur.

Fodd bynnag, rhaid dehongli'r eithriadau hyn yn fanwl iawn a sefydlu'r angen am unrhyw gyfyngiadau yn gadarn: *Sunday Times v UK* (No 2); *Goodwin v UK* [1996] 22 EHRR 123. Gweler yr adran isod ar “Troseddau casineb” am rai enghreifftiau o eithriadau.

Ac felly ni ddylid cyflwyno unrhyw erlyniad dan adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 nag adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (achosion Categori 4) oni bai y gellir dangos yn ôl ei ffeithiau a rhinweddau ei hun ei fod yn angenrheidiol a chymesur.

Mae erlyniad yn annhebygol o fod yn angenrheidiol a chymesur pan:

- a) Fydd yr un dan amheuaeth wedi mynegi gwir edifeirwch;
- b) Fydd gweithredu cyflym ac effeithiol wedi digwydd gan yr un dan amheuaeth a/neu eraill, er enghraifft, darparwyr gwasanaeth, i ddileu'r cyfathrebiad dan sylw neu i atal mynediad ato;
- c) Nad oedd y cyfathrebiad wedi ei fwriadu ar gyfer cynulleidfa eang, ac nid oedd hyn yn ganlyniad amlwg i anfon y cyfathrebiad; yn arbennig pan nad oedd y gynulleidfa arfaethedig yn cynnwys y dioddefwr neu'n darged y cyfathrebiad dan sylw; neu
- d) Nad oedd cynnwys y cyfathrebiad yn amlwg yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellid dirnad a allai fod yn ddiodefadwy neu'n dderbyniol mewn cymdeithas agored ac amrywiol sy'n cynnal a pharchu rhyddid mynegiant.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, fodd bynnag, a rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau ei hun.

Trefniadau ymdrin â throseddau Categori 4

Rhaid i holl droseddau Categori 4 gael caniatâd cyn eu cyhuddo gan Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr neu'r CPSD CCP neu DCCP: gweler yr adran isod ar drefniadau trin achosion.

Sylwer nad yw achosion Categori 4 yn cynnwys cyfathrebiadau maleisus ar gyfer dibenion atgyfeirio, gan y dylai'r rhain gael eu hystyried dan gategori 1. Felly gall Ardaloedd a CPSD gyhuddo achosion sy'n cynnwys cyfathrebiadau maleisus, heb eu hatgyfeirio at Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr.

RHAN B: Materion sy'n codi mewn troseddu Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r Rhan hon yn ymdrin ag amrywiol faterion sy'n codi yn gyffredin mewn achosion cyfryngau cymdeithasol ac mae'n rhoi cyfarwyddyd ar y dull i'w ddefnyddio yng nghyswllt pob mater. Trais yn erbyn menywod a merched (VAWG)

Mae'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn cynnig fframwaith cyffredinol i ymdrin â throseddau a nodwyd fel rhai a gyflawnir yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, gan ddynion yn erbyn menywod. Mae natur neu gyd-destun nodweddiadol troseddau VAWG fel arfer yn sefyllfa lle mae'r tramgwyddwr yn defnyddio grym a / neu ddylanwad sy'n rheoli bywyd y dioddefwr.

Mae'r dull yn cydnabod VAWG fel un o faterion sylfaenol hawliau dynol, gan dynnu ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu llofnodi a'u cadarnhau. Cydnabyddir VAWG yn fyd-eang, a gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r CPS yn cydnabod bod dynion a bechgyn hefyd yn dioddef troseddau VAWG, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r troseddau a amlygir yn yr adran hon. Mae ein holl bolisiau VAWG yn gynhwysol ac fe'u gweithredir yn deg a chyfartal i holl dramgwyddwyr a dioddefwyr troseddau, beth bynnag yw eu rhyw.

Dylai erlynyddion fod yn gyfarwydd â'r cyfarwyddyd cyfreithiol ar [Trais yn erbyn Menywod a Merched](#) a gweithredu'r egwyddorion a nodir yn y cyfarwyddyd mewn achosion priodol. Am gymorth ymarferol wrth ymdrin â pharatoi gwaith achos a chyflwyno achosion, dylid cyfeirio hefyd at adran VAWG y Ganolfan Gwaith Achos.

Atgoffir erlynyddion o'r defnydd posibl o gyfryngau cymdeithasol i ddangos grym a rheoli mewn troseddau VAWG. Er enghraifft, mewn achosion o drais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod, gellir defnyddio bygythiadau i roi gwybodaeth bersonol ar gyfryngau cymdeithasol, er mwyn dwyn cywilydd ar rywun, gael eu defnyddio i dawelu a gorfodi dioddefwr.

Mae gwella diogelwch, cefnogaeth a bodlonrwydd dioddefwyr a thystion yn un o amcanion allweddol y Strategaeth VAWG. Wrth symud achosion ymlaen, dylai erlynyddion fod yn ymwybodol o'r anawsterau penodol a wynebwr gan ddioddefwyr VAWG a'r sensitifrwydd sydd ei angen wrth eu cefnogi.

Mae nodweddion allweddol troseddau VAWG a all gael effaith ar y modd yr ymdrinnir ag achos yn cynnwys:

- Mae'r tramgwyddwr a'r dioddefwr yn aml yn adnabod ei gilydd ac yn aml mae perthynas lle mae un yn rheoli.
- Mae lefelau'r trais yn aml yn gwaethygu e.e. o aflonyddu i lofruddiaeth.
- Gall y dioddefwr fod â materion ychwanegol i'w hystyried cyn rhoi adroddiad am drosedd i'r heddlu e.e. dibyniaeth ariannol; plant ar y cyd.
- Gall y troseddau amrywio o gam-drin gan un tramgwyddwr i fod yn rhan o drosedd gyfundrefnol ryngwladol.
- Efallai y bydd oedi cyn rhoi adroddiad oherwydd ofn, bygythiadau a thrawma.
- Efallai y bydd mwy o debygolrwydd o ddal i erlid a bygwth dioddefwyr.
- Mae potensial y gall tystiolaeth gael ei thynnu yn ôl ac i'r dioddefwr beidio â dod i'r llys.

Troseddau VAWG dros y rhyngwrwyd

Mae'r tirlun lle gall Troseddau VAWG ddigwydd yn newid. Mae defnyddio'r rhyngwrwyd, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, negeseuon testun, apiau ffonau deallus (er enghraifft WhatsApp; Snapchat), meddalwedd ysbïo a meddalwedd olrhain GPS (System Leoli Fyd-eang) i gyflawni troseddau VAWG yn cynyddu. Defnyddir gweithgaredd ar-lein i godi cywilydd, rheoli a bygwth dioddefwyr, yn ogystal ag i gynllunio a threfnu gweithredoedd treisgar.

Gelwir peth o'r gweithgaredd hwn yn "seibr stelcio". Nid oes diffiniad cyfreithiol o seibr stelcio, ac nid oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol i ymdrin â'r ymddygiad. Yn gyffredinol, disgrifir seibr stelcio fel ymddygiad bygythiol neu gysylltiad nas dymunir â rhywun, gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau o gyfathrebu ar-lein. Yn aml bydd seibr stelcio ac aflonyddu ar-lein yn cael eu cyfuno â ffurfiau eraill o stelcio neu aflonyddu 'traddodiadol', fel cael eich dilyn neu dderbyn galwadau ffôn neu lythyrau nad ydych yn eu dymuno. Gall yr enghreifftiau o seibr stelcio gynnwys:

- Negeseuon e-bost neu destun bygythiol neu anllad.
- Spam, pan fydd y troseddwr yn anfon nifer o negeseuon e-bost spam at y dioddefwr.
- Aflonyddu trwy sgysiauw byw neu 'fflamio', ffurf ar gam-drin ar lafar ar-lein.
- "Cymell", neu waradwyddo cymheiriaid ar-lein trwy eu labelu fel rhai llac eu moesau.
- Gadael negeseuon amhriodol ar fforymau ar-lein neu fyrddau negeseuon.
- Cyswllt anuniongyrchol annymunol gydag unigolyn a all fod yn fygythiol neu faleisus, fel rhoi delweddau o blant yr unigolyn neu ei weithle ar safle cyfryngau cymdeithasol, heb unrhyw gyfeiriad at enw neu gyfrif yr unigolyn.
- Gosod delweddau wedi eu haddasu o unigolion ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol (gweler yr adran ar *Broffiliau ffug* am ragor o fanylion).
- Hacio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac yna monitro a rheoli'r cyfrifon.
- Anfon firysau electronig.
- Anfon e-bost nas dymunir.
- Lladrata hunaniaeth seibr.

Am ragor o wybodaeth dylai Erlynyddion gyfeirio at yr adran ar "[Effaith a deinameg cam-drin domestig](#)" yn y Canllawiau Cam-drin Domestig i erlynyddion.

Bydd a yw'r gweithgareddau seibr yma yn cyfateb i drosedd yn dibynnu ar y cyd-destun ac amgylchiadau arbennig y weithred dan sylw. Dylai erlynyddion ystyried y troseddau cyfryngau cymdeithasol amrywiol dan Gategoriâu 1-4, yn ogystal â throseddau eraill posibl. Yn benodol, gall yr

adrannau yn y Canllawiau hyn ar Aflonyddu a stelcio, Ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi a Datgelu delweddau rhywiol preifat heb gydsyniad fod yn berthnasol i seibr stelcio.

Troseddau VAWG cyfryngau cymdeithasol Categori 4

Er y gall nifer o droseddau VAWG cyfryngau cymdeithasol fod yn ddigon difrifol i gael eu herlyn fel trosedd Categori 1 neu Categori 2, efallai y bydd rhai enghreifftiau pan ellir dwyn erlyniad dan Categori 4, os bydd y trothwy uchel yn cael ei gyrraedd h.y. cyfathrebiadau sy'n hynod sarhaus, anweddus, aflednais neu ffug.

Er enghraifft, gall cyfathrebiadau sy'n cynnwys delweddau neu fideos o fenywod gydag anafiadau difrifol iawn, neu o fenywod yn cael eu treisio, neu o fenywod yn dioddef gweithredoedd sadistaidd treisgar, gyda thestun sy'n awgrymu bod ymosodiadau / treisio / gweithredoedd o'r fath yn dderbyniol neu ddymunol, gan ddibynnu ar y cyd-destun a'r amgylchiadau, gael eu hystyried yn hynod o sarhaus.

Troseddau VAWG nad ydynt ar gyfryngau cymdeithasol

Mae cam-drin domestig yn debygol o fynd yn fwyfwy aml a difrifol po hwyaf y bydd yn parhau. Felly gall achosion gynnwys tystiolaeth am droseddau ar gyfryngau cymdeithasol, fel aflonyddu, seibr stelcio, neu ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi trwy negeseuon testun neu e-bost, ac yna sy'n gwaethygu yn droseddau mwy difrifol nad ydynt ar gyfryngau cymdeithasol, fel ymosodiadau corfforol. Bydd angen i erlynyddion asesu a yw'n addas cyhuddo ar y ddau fath o droseddu, neu bod y troseddoldeb cyffredinol yn cael ei gynnwys yn ddigonol gan gyhuddiadau sy'n adlewyrchu ar y math mwyaf difrifol o droseddu yn unig. Pan gyhuddir ar sail y troseddu mwyaf difrifol yn unig, efallai y bydd yn bosibl dangos prawf yn y dystiolaeth o'r gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol, fel ymddygiad sy'n rheoli, fel cyd-destun yn y cefndir.

Llumanu

Dylai'r holl achosion cam-drin domestig gael eu hamlygu ar y CMS a dylai pob achos gael lluman "dioddefwr bregus / dan fygythiad".

Troseddau casineb

Mae dull y CPS o ymdrin â throseddau casineb yn seiliedig ar nifer o gytundebau a chonfensiynau gan y Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu cadarnhau, a datganiadau'r Cenhedloedd Unedig ar droseddau casineb, y mae'r Deyrnas Unedig yn eu cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Ffurf ar Wahaniaethu Hiliol (1965), y Confensiwn ar Hawliau Unigolion ag Anableddau (2006), y Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol (1948) a'r Datganiad ar Ddileu Pob Ffurf o Anoddefgarwch a Gwahaniaethu ar Sail Crefydd neu Gred (1981). Mae'r CPS yn ystyried pob trosedd gasineb yn ddifrifol, gan y gall gael effaith ddwys a pharhaol ar ddioddefwyr unigol, gan danseilio eu hymdeimlad o ddiogelwch yn y gymuned. Trwy ymdrin yn gadarn â throseddau casineb, rydym yn anelu at wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol a chynyddu'r adrodd ar droseddau casineb.

Mae troseddau casineb yn cynnwys troseddau a dedfrydau a waethygyd oherwydd hil, crefydd, anabledd, tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol y dioddefwr.

Troseddau casineb cyfryngau cymdeithasol Categori 4

Mae'r trothwy uchel ar y cam tystiolaethol a'r ystyriaethau budd y cyhoedd a'r confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a nodir uchod yn berthnasol i achosion troseddau casineb cyfryngau cymdeithasol Categori 4, fel y maent i achosion eraill. Ond, fel y nodwyd uchod yn yr adran "Budd Cyhoeddus", dylai erlynyddion hefyd ystyried yn benodol baragraff 4.12(c) y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron, sy'n nodi:

Rhaid i erlynyddion hefyd ystyried a gafodd y drosedd ei symblu gan wahaniaethu o unrhyw fath yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd y dioddefydd; neu os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi bod yn elyniaethus tuag at y dioddefydd ar sail unrhyw rai o'r nodweddion hynny. Mae presenoldeb gelyniaeth neu ysgogiad o'r fath yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd angen erlyniad."

Wrth asesu cyfathrebiadau sy'n ymddangos fel pe baent wedi eu hysgogi gan wahaniaethu o'r fath neu yn dangos gelyniaeth o'r fath, dylai erlynyddion fod yn effro i unrhyw gyfeiriad neu gyd-destun ychwanegol i'r cyfathrebiad dan sylw. Gall cyfeiriadau neu gyd-destun o'r fath weithiau ddyrchafu cyfathrebiad na fyddai fel arall yn bodloni'r trothwy uchel yn un, dan yr holl amgylchiadau, y gellir ei ystyried yn hynod sarhaus. Er enghraifft, cyfeiriad yn y cyfathrebiad at ddigwyddiad trychinebus diweddar, sy'n cynnwys marwolaethau unigolion sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir.

Gall negeseuon troseddau casineb weithiau ddefnyddio iaith na fydd erlynyddion yn gyfarwydd â hi, a all achosi sarhad difrifol i'r rhai y mae'n ymwneud â nhw. Dylai erlynyddion sicrhau eu bod yn deall ystyr a chyd-destun llawn yr iaith benodol neu'r awgrymiadau a ddefnyddir, fel eu bod yn gallu asesu'r graddau y gall beri tramgwydd yn briodol. I wneud hynny, efallai y ceisir rhagor o wybodaeth gan achwynydd neu gan grwpiau cymunedol perthnasol.

Mae cyfraith achos Ewropeaidd a chartref wedi ymdrin â mater Erthygl 10 ac areithiau troseddau casineb hiliol / crefyddol:

Cadarnhaodd *DPP v Collins* ei bod yn gyson ag Erthygl 10 i erlyn unigolyn am ddefnyddio'r system telegyfathrebu i adael negeseuon hiliol. Rhaid i Erthygl 17 y confensiwn gael ei weithredu, sy'n atal cam-drin unrhyw hawliau dan y Confensiwn, fel y cadarnhawyd yn *Norwood v the UK* (2004) 40 EHRR SE 111.

Dadleuodd y Comisiwn Ewropeaidd bod areithio hiliol eithafol tu hwnt i ddiogeliad Erthygl 10 oherwydd ei botensial i danseilio trefn gyhoeddus a hawliau'r lleiafrif a dargedir: *Kuhnen v Germany* 56 RR 205.

Mae'r ECtHR wedi cadarnhau bod gwadu bodolaeth neu ddiwygio'r Holocaust yn cael ei dynnu allan o ddiogeliad Erthygl 10 gan Erthygl 17: gweler *Lhideux and Isorni v France* [2000] 30 EHRR 665; a *M'Bala M'Bala v France* (cais rhif 25239/13), a ddyfarnodd bod dangos casineb a gwrth-semitiaeth amlwg ar ffurf cynhyrchiad artistig (perfformiad doniol), hyd yn oed os oedd yn ddychanol neu bryfoclyd, yn cael ei ddiogelu dan Erthygl 10.

Troseddau casineb penodol

Mae troseddau casineb neu a waethygydd gan gasineb yn cynnwys troseddau y gellir eu cyflawni trwy gyfryngau cymdeithasol, fel aflonyddu, stelcio neu ddsbarthu deunydd ysgrifenedig neu ddelweddau gweledol. Wrth adolygu achos a all gynnwys troseddau casineb dylai erlynyddion gyfeirio at y Cyfarwyddyd Cyfreithiol troseddau casineb perthnasol a'r adran Troseddau Casineb ar y Ganolfan Gwaith Achos.

Gweler y Cyfarwyddyd Cyfreithiol ar [Erlyn achosion troseddau Hiliol a Chrefyddol](#) am:

- Droseddau a waethygydd yn hiliol neu grefyddol, dan adrannau 28-32 Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998, fel troseddau trefn gyhoeddus wedi eu gwaethygu ac Aflonyddu a Stelcio. Er mwyn profi bod y drosedd wedi ei gwaethygu gan hiliaeth neu grefydd bydd angen i'r erlyniad brofi'r drosedd "sylfaenol" ac yna'r gwaethygiad hiliol neu grefyddol, fel y'u diffinnir yn adran 28 y Ddeddf Troseddau ac Anhrefn.
- Ysgogi casineb hiliol neu grefyddol dan Rhan III o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, yn arbennig y troseddau o: gyhoeddi / dosbarthu deunydd ysgrifenedig, adrannau 19 a 29C; a dosbarthu / dangos / chwarae recordiad o ddelweddau gweledol neu sain, adrannau 21 a 29E. Sylwer bod rhaid i achosion o'r fath gael eu cyfeirio at yr Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD) a rhaid i gamau cyfreithiol gael caniatâd y Twrnai Cyffredinol i symud ymlaen.

Gweler y Cyfarwyddyd Cyfreithiol ar [Ysgogi casineb ar sail tueddfryd rhywiol](#) am y drosedd o Ysgogi casineb ar sail tueddfryd rhywiol dan Adran III o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Rhaid i achosion o'r fath hefyd gael eu cyfeirio at yr Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD) a rhaid iddynt gael caniatâd y Twrnai Cyffredinol.

Gweler hefyd yr adran isod "Deddfwriaeth trefn gyhoeddus".

Dwysau deddfryd

Mae Adrannau 145 ac 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn darparu ar gyfer cynnydd yn y ddeddfryd am waethygiad yn gysylltiedig â hil, crefydd, anabled, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol. Mae'r darpariaethau yn berthnasol i bob trosedd, ar wahân i droseddau hiliol a chrefyddol dan adrannau 29-32 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (ymosodiadau, difrod troseddol, troseddau trefn gyhoeddus, aflonyddu ac ati wedi eu gwaethygu), gan fod cosbau uwch posibl i'r rhain na'r troseddau sylfaenol cyfatebol.

Er mwyn profi bod y drosedd wedi ei gwaethygu a dwysáu'r ddeddfryd rhaid dangos naill ai bod y troseddwr wedi dangos gelyniaeth at y dioddefwr ar sail nodwedd a ddiogelir y dioddefwr (hil, crefydd, anabled, tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol), neu fod y drosedd wedi cael ei hysgogi gan elyniaeth at unigolion sydd â'r nodwedd a ddiogelir. Dylai erlynyddion bennu pa ochr sydd yn briodol i erlyn oddi tani, cael tystiolaeth sy'n berthnasol i'r ochr honno a rhoi cyfarwyddiadau clir i'r eiriolwyr.

Am gyfarwyddyd manwl ar elfennau'r darpariaethau hyn a sut i'w profi gweler y cyfarwyddyd cyfreithiol ar [Erlyn achosion o droseddau casineb anabled](#). Gweler hefyd y Cyfarwyddyd Cyfreithiol ar erlyn achosion troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd a'r cyfarwyddyd cyfreithiol ar [Erlyn achosion o droseddau Hiliol a chrefyddol](#).

Troseddau casineb sy'n gorgyffwrdd

Gall pobl gael eu targedu am nifer o resymau sy'n gorgyffwrdd, fel hil, crefydd, anabled, rhyw neu dueddfryd rhywiol. Pan fydd hyn yn wir, dylid gweithredu'r polisïau CPS perthnasol.

Llumanu

Dylai achosion troseddau casineb gael eu dynodi yn gynnar a'u llumanu ar y CMS. Gweler y cyfarwyddyd cyfreithiol troseddau casineb perthnasol am ddiffiniad y CPS o droseddau casineb penodol, sy'n ddibynol ar amgyffrediad neu gred y dioddefwr neu rywun arall. Pan fydd y diffiniad yn cael ei fodloni, dylai troseddau gael eu hamlygu fel troseddau casineb, os ydynt yn cael eu cyhuddo felly ai peidio.

Proffiliau cyfryngau cymdeithasol ffug neu sarhaus

Fel arfer mae cyfryngau cymdeithasol yn gofyn i bobl ddefnyddio eu hunaniaeth wirioneddol ar eu llwyfannau. Mae hyn yn creu gofod mwy diogel i ddefnyddwyr ac yn galluogi llwyfannau i ganfod cyfrifon a grëwyd at ddibenion maleisus, gan ei gwneud yn anos i ddefnyddio enw anhysbys i fwlio neu ymddwyn yn droseddol.

Gall y weithred o sefydlu cyfrif rhwydweithio cymdeithasol ffug, neu greu proffil ffug neu sarhaus neu alias gyfateb i drosedd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

Er enghraifft:

- Mae cynbartner dioddefwr yn creu proffil o'r dioddefwr ar dudalen Facebook, i ymosod ar gymeriad y dioddefwr, ac mae'r proffil yn cynnwys deunydd sy'n hynod sarhaus, ffug, yn codi ofn neu'n anwedus.
- Crëir delwedd wedi ei addasu "photoshopped" o unigolyn a'i roi ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol. Er bod llawer o ddelweddau wedi eu haddasu yn ddoniol a ddim yn sarhaus o gwbl, mae eraill yn peri gofid neu ofn, fel cyfuno wyneb unigolyn â chorff noeth rhywun arall i greu delweddau anwedus, a gall sylw sarhaus gael ei roi gyda nhw.

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall trosedd gael ei chyflawni dan Gategorïau 1, 2 neu 4. Sylwer y gall trosedd Categori 4 gael ei chyflawni trwy gyfathrebiad neu neges sy'n "ffug".

Fel arall, gall proffil ffug neu sarhaus gyfateb i drosedd dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Gweler, er enghraifft, achos *S v CPS* [2008] EWHC 438 (Admin), pan gollfarnwyd y diffynnydd am Achos aflonyddwch, dychryn neu ofid i unigolyn dan adran 4A o'r Ddeddf, am lwytho delwedd o'r dioddefwr ar wefan, ynghyd â thestun, oedd yn honni, trwy awgrymu, nifer o honiadau ffug, gan gynnwys bod y dioddefwr wedi cael ei gollfarnu am drais yn y gorffennol.

Os bydd unrhyw fudd neu golled ariannol yn digwydd o ganlyniad i'r cyfrif neu broffil ffug, efallai y bydd trosedd wedi ei chyflawni dan Ddeddf Twyll 2006 hefyd: dan adran 8 mae meddiant neu greu neu gyflenwi 'eitemau' i'w defnyddio mewn twyll yn cynnwys unrhyw raglen neu ddata a ddelir ar

ffurf electronig. Am ragor o gyfarwyddyd dylai erlynyddion gyfeirio at y Cyfarwyddyd Cyfreithiol ar [Ddeddf Twyll 2006](#), yn benodol yr un yn ymwneud ag adrannau 6-8 o'r Ddeddf.

Tystion bregus sy'n teimlo dan fygythiad

Efallai y bydd rhai dystion yn cael anhawster penodol o ran dod i'r llys a rhoi tystiolaeth oherwydd eu hoed, amgylchiadau personol, ofn aflonyddu ac oherwydd eu hanghenion penodol. Dan amgylchiadau o'r fath, pan ystyrir bod dystion yn fregus neu wedi eu dychryn, gall "camau arbennig" wella ansawdd eu profiad trwy eu helpu i roi eu "tystiolaeth orau". Enghreifftiau o gamau arbennig yw: sgrin yn y llys i warchod y tyst rhag y diffynnydd; cysylltiadau byw, i alluogi tyst i roi tystiolaeth o'r tu allan i'r llys trwy ddolen deledu i'r llys; holi'r tyst trwy "gyfryngwr", unigolyn wedi ei benodi gan y llys i gynorthwyo'r tyst i roi ei dystiolaeth i'r llys.

O ystyried natur llawer o'r troseddau a gyflawnir trwy gyfryngau cymdeithasol, rhaid i erlynyddion fod yn effro i'r posibilrwydd y gall dioddefwyr fod yn fregus neu dan fygythiad. Mewn achosion o'r fath, dylai natur fregus bosibl gael ei ystyried yn briodol, gan gynnwys sgysiaau cynnar gyda'r heddlu i weld a oes angen camau arbennig.

Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael yn y Cyfarwyddyd Cyfreithiol ar Gamau Arbennig.

Deddfwriaeth Trefn Gyhoeddus

Er y gall rhai achosion yng Nghategoriâu 1-4 gael eu hystyried dan deddfwriaeth trefn gyhoeddus, fel Rhan 1 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, dylid bod yn ofalus iawn wrth ddelio gydag achosion cyfryngau cymdeithasol fel hyn oherwydd mae deddfwriaeth trefn gyhoeddus yn ymwneud yn bennaf â'r geiriau a fynegir neu'r gweithredoedd a gyflawnir ym mhresenoldeb neu o fewn clyw i'r sawl sy'n cael ei dargedu (h.y. pan geir agosatrwydd corfforol rhwng y siaradwr a'r gwrandäwr) ac mae cyfyngiadau ar erlyn geiriau neu ymddygiad gan unigolyn mewn annedd.

Rydym yn atgoffa erlynyddion i Sedley LJ bwysleisio yn *Redmond-Bate v DPP* (Llys Adrannol, 23 Gorffennaf 1999), dan Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, nad yw'r ffaith fod geiriau yn llidus, gynhennus, yn ddigroeso a chythruddol yn unig, yn ddigon i gyfiawnhau galw ar y gyfraith droseddol oni bai eu bod yn dueddol o ysgogi trais. I'r un perwyl, ategodd Moses J yn *Dehal v CPS* [2005] EWHC 2154 (Admin), gan gyfeirio at adran 4A Deddf Trefn Gyhoeddus 1986:

"...ni ddylid galw ar y gyfraith droseddol oni bai a nes y sefydlir fod yr ymddygiad sy'n destun y cyhuddiad yn cyfateb i fygythiad o'r fath i drefn gyhoeddus fel bod angen galw ar y gyfraith droseddol yn hytrach na'r gyfraith sifil." (Paragraff 5)

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai y bydd erlynyddion yn fodlon fod y troseddau yn Rhannau I neu III o Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn berthnasol ac y dylid eu defnyddio: gweler yr adrannau uchod ar "Troseddau casineb" a "Proffiliau cyfryngau cymdeithasol ffug a sarhaus".

Gorchmynion Ategol

Mae gorchmynion ategol yn offer defnyddiol i ymdrin â cham-drin cyfryngau cymdeithasol, os yw'r cam-drin yn cyfateb i drosedd neu beidio, ac yn arbennig mewn amgylchiadau pan fydd ar unigolyn

ofn neu angen ei ddiogelu. Dylai erlynyddion ystyried a all gorchymyn ategol fod yn addas, cyn cyhuddo, ar ôl collfarnu ac ar ôl rhyddfarn.

Am ddisgrifiad manwl o'r gorchymynion ategol sydd ar gael dylai erlynyddion gyfeirio at y pecyn offer Gorchymynion ategol ac unrhyw gyfarwyddyd cyfreithiol perthnasol.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o orchymynion a all fod yn addas mewn achosion cyfryngau cymdeithasol:

Gorchymynion Atal

Os penderfynir peidio â chymryd camau pellach, ond bod angen atal neu rwystro unigolyn rhag cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gall erlynyddion roi cyngor y dylai'r heddlu ystyried gofyn am Orchymyn Atal (gwaharddeb sifil cyn cyhuddo) dan adran 1 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 (ASBCPA). Ond, bydd raid ystyried hawliau Erthygl 10 cyn gwneud cais am orchymyn o'r fath. Ni all y CPS wneud cais am y gorchymyn hwn.

Gorchymynion Ymddygiad Troseddol

Mae Gorchymynion Ymddygiad Troseddol (CBO) ar gael dan Ran 2 ASBCPA. Mae CBO ar gael wrth gael collfarn am unrhyw dramgwydd troseddol, mewn unrhyw lys, ar gais yr erlynydd.

Bwriedir y gorchymyn i ymdrin â'r troseddwr mwyaf difrifol a chyson, felly maent yn fwy tebygol o fod yn addas mewn achosion cyfryngau cymdeithasol Categori 1 neu 2, yn hytrach na Chategoriâu 3 neu 4. Fe'u bwriadwyd yn bennaf hefyd i ddiogelu'r gymuned ehangach, felly gall gorchymynion eraill fod yn fwy addas pan fydd dioddefwr a enwir, fel mewn achosion o gam-drin domestig.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod y troseddwr wedi cymryd rhan mewn ymddygiad a oedd wedi aflonyddu, dychryn neu beri pryder neu yn debygol o wneud hynny i unrhyw un, a bod y llys yn ystyried y bydd gwneud y gorchymyn yn helpu i atal y troseddwr rhag ymddwyn yn y fath fodd.

Mewn rhai achosion, gall yr hyn sy'n ymddangos i ddechrau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol syml, fod, efallai, â chysylltiad â throseddau casineb. Pan fydd tystiolaeth o elyniaeth ar sail y nodwedd trosedd casineb a ddiogelir sef ethnigrwydd, crefydd, hunaniaeth rywiol, tueddfryd rhywiol neu anabled, dylai erlynyddion fod yn rhagweithiol wrth geisio rhagor o dystiolaeth gan yr heddlu. Er enghraifft:

- Holi'r dioddefwr, gofalwr a / neu deulu'r dioddefwr, cymdogion, asiantaethau tai ac ati a fu achosion eraill yn ymwneud â'r dioddefwr;
- Gwirio a yw'r un dan amheuaeth wedi bod yn rhan o unrhyw ddigwyddiadau eraill, ac os felly, a oedd y dioddefwr ar yr achlysuron hynny yn rhannu'r un nodweddion personol a ddiogelir.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y Cyfarwyddyd Cyfreithiol ar [Gorchymynion Ymddygiad Troseddol](#).

Gorchymynion Rhwystro

Mae Gorchymyn Rhwystro yn orchymyn ymddygiad sifil y gellir ei wneud yn erbyn diffynnydd wrth ei gollfarnu neu ei ryddfarnu am unrhyw dramgwydd troseddol. Bwriad y gorchymyn yw diogelu

unigolyn a enwir rhag aflonyddu, stelcio (wrth gollfarnu neu ryddfarnu) neu ymddygiad a fydd yn peri ofn trais i'r unigolyn (wrth gollfarnu yn unig).

Gall y gorchmynion yma fod yn briodol, er enghraifft, yn y mathau canlynol o achosion:

- Mae'r diffynnydd a'r tyst yn adnabod ei gilydd neu maent wedi bod mewn perthynas glos yn y gorffennol.
- Mae'r partïon yn dal i gael cysylltiad â'i gilydd.
- Mae'r achwynydd wedi cael ei dargedu gan y diffynnydd mewn rhyw ffordd.

Sylwer mai dim ond gwaharddiadau y mae Gorchmynion Rhwystro yn gallu eu gosod ac nid gofynion positif.

Am ragor o wybodaeth gweler y cyfarwyddyd cyfreithiol ar [Gorchmynion Rhwystro](#).

Hysbysiadau Amddiffyn Trais Domestig a Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig

Mae Hysbysiadau a Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig (DVPN a DVPO) yn rhoi pŵer i'r heddlu ddarparu amddiffyniad yn syth i ddiodeffwyr honedig cam-drin domestig mewn amgylchiadau pan fydd yr heddlu yn ystyried nad oes unrhyw gyfyngiadau gorfodol y gellir eu rhoi ar y tramgwyddwr: er enghraifft, pan fydd yr heddlu'n penderfynu na fydd "dim gweithredu pellach" ar achos, neu pan fydd yr un sydd dan amheuaeth wedi derbyn rhybudd syml, neu wedi cael ei ryddhau ar fechnïaeth heb amodau.

Er mwyn cael y gorchmynion, rhaid cael tystiolaeth bod yr un dan amheuaeth wedi bod yn dreisgar neu wedi bygwth trais yn erbyn y diodeffwr; ac mae'r gorchmyn yn angenrheidiol i ddiogelu'r diodeffwr rhag trais neu fygythiad o drais. Gall bygythiad o drais gael ei wneud trwy gyfryngau cymdeithasol.

Gall y gorchmynion gael eu sicrhau heb gydsyniad y diodeffwr.

Dim ond am 48 awr mae DVPN mewn grym, ac ar ôl hynny rhaid i'r heddlu wneud cais i lys ynadon am DVPO.

Mae DVPOs yn rhoi pŵer i'r heddlu ac ynadon i:

- Orfodi peidio ag ymyrryd â'r diodeffwr.
- Atal diffynnydd rhag cysylltu â'r diodeffwr.
- Atal diffynnydd rhag troi'r diodeffwr allan/gwahardd y diodeffwr o eiddo (o'u cartref).
- Symud diffynnydd o eiddo (o'u cartref).
- Atal diffynnydd rhag dychwelyd i eiddo (eu cartref) am gyfnod o hyd at 28 diwrnod.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rhain a Gorchmynion eraill sy'n berthnasol i gam-drin domestig yn y [Canllawiau Cam-drin Domestig i Erllynyddion](#).

Amodau a gwaharddiadau dan Orchmynion

Gan ddibynnu ar natur y gorchmyn penodol, gall gynnwys gwaharddiadau, i atal neu gyfyngu ar rai ymddygiadau, neu ofynion positif, i ymdrin ag achosion gwaelodol ymddygiad y troseddwr.

Mewn achosion cyfryngau cymdeithasol, gall yr amodau i'w gosod dan orchymyn ymwneud â defnydd y tramgwyddwr o gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys cyfyngiad neu derfyn ar gyfathrebiadau. Mae gorchmynion o'r fath yn debygol o dynnu'r hawl i fywyd preifat dan Erthygl 8 o'r ECHR i'r drafodaeth, yn ogystal â hawliau Erthygl 10, a bydd rhaid cyfiawnhau unrhyw amhariad ar yr hawliau hyn, a fydd yn haws pan fydd collfarn. Mae materion ymarferol i'w hystyried hefyd o ran a yw cyfyngiad yn un wnaiff weithio neu yn un y gellir ei fonitro a'i orfodi.

Mae cyfraith achos yn ymwneud â Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) yn rhoi cyfarwyddyd defnyddiol ar yr egwyddorion allweddol i'w hystyried wrth osod gofynion yn ymwneud â defnydd o'r rhyngwrwyd a chyswllt â'r rhyngwrwyd. Yn benodol, achos *R v Smith* [2011] EWCA Crim 1772:

- Dylai'r gorchymyn gael ei deilwrio yn ôl union ofynion yr achos.
- Dylai'r gorchymyn osgoi gwrthdaro neu ddyblygu gofynion unrhyw orchymyn llys, waharddeb neu drefn statudol arall y gall y troseddwr fod yn ddarostyngedig iddynt.
- Dylai amodau'r gorchymyn fod yn glir, angenrheidiol a chymesur ac ni ddylent fod yn ormesol.
- Mae gwahardd defnyddio cyfrifiadur neu'r rhyngwrwyd yn anghymesur ac ni ellid ei ganiatáu, gan ei fod yn cyfyngu'r diffynnydd o ran defnyddio'r hyn sy'n cael ei ystyried heddiw fel rhan hanfodol o fywyd bob dydd ac yn ofynnol mewn llawer o swyddi.
- Enghraifft o amod effeithiol yw gwahardd y diffynnydd rhag:
 - i. Defnyddio unrhyw ddyfais a all gysylltu â'r rhyngwrwyd oni bai bod ganddo'r gallu i gadw ac arddangos hanes y defnydd o'r rhyngwrwyd, a bod y ddyfais, pan ofynnir am hynny, ar gael i'w harchwilio gan swyddog heddlu; a
 - ii. Dileu hanes defnydd o'r rhyngwrwyd.
- Mewn rhai achosion gall fod yn angenrheidiol gwahardd defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn llwyr neu ffurfiau eraill o gyfryngau sgwrsio, neu hyd yn oed feddiant ar ddyfais sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd. Gall y rhesymau am hyn fod yn, er enghraifft, yr angen i ddiogelu unigolyn neu'r cyhoedd, neu oherwydd torri'r gorchmynion yn gyson. Gweler *R v Henson* [2016] EWCA Crim 425₂, lle'r oedd yr ymgeisydd yn cael mynediad i'r rhyngwrwyd mewn llyfrgell gyhoeddus neu sefydliad addysgol yn unig dan SHPO, yn dilyn peidio â chydymffurfio â SHPO blaenorol yn gyson, hyd yn oed ar ôl gosod meddalwedd goruchwyllo i fonitro ei ddefnydd o gyfrifiaduron.

Os bydd gorchymyn yn atal unigolyn rhag defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol, dylai'r heddlu anfon y gorchymyn llys i'r safleoedd perthnasol, fel y gall cyfrif yr unigolyn gael ei dynnu i lawr. Gall rhai llwyfannau fod â doler y gellir ei defnyddio i roi gwybodaeth am y gorchymyn llys.

Datganiadau Personol Dioddefwyr

Mae Datganiadau Personol Dioddefwyr (VPS) yn rhoi cyfle i ddioddefwyr ddisgrifio effaith ehangach y drosedd arnynt, mynegi eu pryderon a dynodi a oes arnynt angen cefnogaeth ai peidio. Mewn achosion cyfryngau cymdeithasol, dylai erlynyddion ofyn am Ddatganiad os na wnaed un yn barod.

Nodir y darpariaethau ar gyfer gwneud Datganiad a'i ddefnyddio mewn camau cyfreithiol yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau](#) (Cod y Dioddefwyr), a dylai erlynyddion gyfeirio hefyd at y cyfarwyddyd cyfreithiol ar [Ddatganiadau personol dioddefwyr](#).

Dewisol yw llunio Datganiad a bydd y rhan fwyaf o ddatganiadau personol dioddefwyr yn ychwanegol at y datganiadau tystion arferol. Bydd Datganiad Dioddefwr trylwyr yn cynorthwyo'r llys dedfrydu i asesu unrhyw niwed y mae'r drosedd wedi ei achosi, gan gynnwys effaith y drosedd ar y dioddefwr, fel gofid a phryder. Gellir defnyddio datganiad dioddefwr hefyd i gefnogi cais am orchymyn ategol.

Ar gyfer achosion cam-drin domestig, gall Datganiad Personol Dioddefwr gynnwys pryderon y dioddefwr ynghylch diogelwch, brawychu a statws mechnïaeth y tramgwyddwr.

Gall dioddefwr wneud mwy nag un Datganiad Dioddefwr ac mae'n bwysig i'r Datganiadau gael eu diweddarau, er mwyn i unrhyw effeithiau tymor hir oherwydd y drosedd gael eu cofnodi. Mae gan ddioddefwyr hawl i ddweud a hoffent ddarllen eu datganiad yn uchel i'r llys neu a hoffent iddo gael ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae (os yw wedi ei recordio) drostynt.

Datganiadau Effaith Cymunedol

Dogfen fer yw Datganiad Effaith Cymunedol sy'n dangos pryderon a blaenoriaethau cymuned benodol dros gyfnod penodol o amser. Bydd y datganiad yn disgrifio'r niwed a'r effaith ar gymuned sy'n deillio o fathau penodol o droseddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu o drosedd neu ddigwyddiad penodol.

Nid oes raid i gymuned gael ei phennu gan ardaloedd daearyddol. Gall cymuned gael ei diffinio fel grŵp o bobl sy'n rhyngweithio a rhannu rhai nodweddion, profiadau neu gefndiroedd, a/neu sy'n byw yn agos at ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion penodol sy'n gysylltiedig â'u treftadaeth, system gred neu natur gorfforol sy'n diffinio eu bywydau o ddydd i ddydd; er enghraifft, grwpiau ethnig, grwpiau crefyddol, pobl ag anableddau, plant, pobl hŷn.

Gall y CPS ddefnyddio datganiadau fel sail ar gyfer penderfyniad cyhuddo a gall y llys eu defnyddio fel sail ar gyfer penderfyniadau wrth dedfrydu. Sylwer mai un o'r ffactorau budd cyhoeddus i'w hystyried dan baragraff 4.12e y Cod yw effaith y troseddau ar y gymuned.

Dylai erlynyddion fod yn effro i wirio gyda'r heddlu a oes datganiad ar gael mewn achosion pan all datganiad fod yn berthnasol.

Am ragor o wybodaeth cyfeiriwch at y cyfarwyddyd cyfreithiol ar Ddatganiadau Effaith Cymunedol.

Rhoi adroddiad am gam-drin ar gyfryngau cymdeithasol a'i atal

Efallai y bydd pobl sy'n dioddef cam-driniaeth ar gyfryngau cymdeithasol am roi adroddiad am y gam-driniaeth i'r heddlu a/ neu i'r llwyfan cyfrwng cymdeithasol.

Mae nifer o lwyfannau wedi datblygu offer i'w gwneud yn haws i roi adroddiad, i sicrhau tystiolaeth bosibl ac i atal cyfathrebu diangen, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cyfateb i drosedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dolen i roi adroddiad, fel y gellir rhoi adroddiad am un cyfathrebiad neu gyfres ohonynt yn uniongyrchol i'r llwyfan. Gall safleoedd cyfryngau cymdeithasol wedyn benderfynu tynnu cynnwys a gwneud cyfrif yn ddiallu neu ei wahardd, er nad yw'n bosibl yn dechnegol i lwyfan warantu na fydd defnyddiwr yn dychwelyd ar ôl i'w gyfrif gael ei gau. Sylwer, os rhoddir adroddiad am fater i'r heddlu, dylai'r heddlu wneud cais cadw data i'r llwyfan, fel bod tystiolaeth yn cael ei sicrhau ar gyfer unrhyw ymchwiliad.

- Cymryd lluniau sgrin o'r deunydd tramgwyddus, y gellir eu cadw ar neu oddi ar y ddyfais (yn y cwmwl neu ar gof bach, er enghraifft).
- Offer i atal neu dawelu'r unigolyn sydd wedi uwchlwytho cynnwys sarhaus, fel na all weld postiadau neu gael sgwrs â'r dioddefwr.
- Offer i dorri cysylltiad neu "beidio dilyn" cyfrifon sy'n cynhyrchu neu'n rhannu deunydd sarhaus.
- Rhybuddion mewngofnodi, sy'n cymhell darparwr y llwyfan i anfon hysbysiad os bydd rhywun yn ceisio mewngofnodi i gyfrif o le newydd.
- Gosodiadau preifatrwydd, i reoli pwy all weld postiadau a gwybodaeth o broffiliau, fel rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost.

Gellir gweld rhagor o gyngor am ddiogelwch ar y we ar wefan y Llywodraeth [Cyber Streetwise](#) ac ar y wefan a gefnogir gan y Llywodraeth [Get Safe Online](#).

Cael tystiolaeth oddi ar gyfryngau cymdeithasol

Dylai erlynyddion gyfeirio at y [Cyfarwyddyd Data Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu](#) ar adran Ryngwladol y Ganolfan Gwaith Achos i gael cyfarwyddyd manwl ar gael tystiolaeth cyfryngau cymdeithasol gan Ddarparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu yn yr UDA.

Awdurdodaeth

Y rheol gyffredinol yw na ellir mynd â throsedd i'r llys ond yn yr awdurdodaeth lle mae'r drosedd yn digwydd, oni bai bod darpariaeth benodol yn sail i awdurdodaeth, er enghraifft pan fydd statudau penodol yn galluogi'r Deyrnas Unedig i ddefnyddio ei hawdurdodaeth tu hwnt i'w thiriogaeth.

Mewn achosion dros ffiniau sy'n ymwneud â Chymru a Lloegr ac awdurdodaethau eraill (gan gynnwys gwledydd nad ydynt yn yr UE), rhaid i drosedd fod â "chysylltiad sylweddol gyda'r awdurdodaeth hon" i lysoedd yng Nghymru a Lloegr fod ag awdurdodaeth. Mae'n dilyn, pan fydd nifer sylweddol o'r gweithgareddau sy'n rhan o'r drosedd wedi digwydd yng Nghymru a Lloegr, mae gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth oni bai y gellir dadlau, yn rhesymol, y dylai'r ymddygiad gael ei drin gan lysoedd gwlad arall. Gweler *R v Smith (Wallace Duncan) (No.4)* [2004] EWCA Crim 631.

Mae nifer o awdurdodau ar wefannau sy'n deillio o awdurdodaethau eraill:

- Yn *R v Waddon*, heb adroddiad, 6 Ebrill 2000, achos yn ymwneud â chyhoeddi erthygl anwedus, dadleuai'r Llys Apêl y gallai cynnwys gwefannau Americanaidd ddod dan awdurdodaeth Brydeinig pan fyddent yn cael eu lawrlwytho yn y Deyrnas Unedig: mae delweddau a gyhoeddwyd ar wefan dramor yn cael eu cyhoeddi wedyn pan fyddant yn cael eu lawrlwytho yn y Deyrnas Unedig.
- *R v Perrin* [2002] EWCA Crim 747: Wrth asesu a oedd tudalen gwefan a gyhoeddwyd gan gwmni Americanaidd yn torri Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 a.2(1), nid oedd rhaid i'r llys ddangos bod y camau mwyaf o ran cyhoeddi wedi digwydd yn yr awdurdodaeth hon.
- *R v Sheppard* [2010] EWCA Crim 65: pan oedd troseddwr wedi cynhyrchu deunydd hiliol ymfflamychol a'i roi ar wefan oedd yn cael ei westeio gan weinydd pellennig yn yr Unol

Daleithiau, gallai gael treial yn y Deyrnas Unedig oherwydd bod cyfran helaeth o'i weithgareddau wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig, yn ôl gofynion y prawf a nodwyd yn *R v Smith (Wallace Duncan)*.

Am ragor o fanylion am faterion awdurdodaeth, gweler y cyfarwyddyd cyfreithiol ar [Awdurdodaeth](#).

Trefniadau trin

Daeth y canllawiau diwygiedig hyn i rym ar 10 Hydref 2016. Delir ag unrhyw achosion sy'n addas i gael eu hystyried dan y canllawiau hyn gan Ardal berthnasol y CPS neu CPS Direct. Dylai achosion sy'n syrthio i gael eu hystyried dan y canllawiau hyn gael eu trin gan erlynydd gyda'r sgiliau a'r profiad addas. Mae trefniadau arbennig yn berthnasol i achosion sy'n dod dan Gategori 4.

Sylwer nad yw achosion Categori 4 yn cynnwys cyfathrebiadau maleisus ar gyfer dibenion atgyfeirio, gan y dylai'r rhain gael eu hystyried dan gategori 1. Felly gall Ardaloedd a CPSD gyhuddo achosion sy'n cynnwys cyfathrebiadau maleisus, heb eu hatgyfeirio at Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr.

Trefniadau ymdrin ag achosion Categori 4:

- Achosion CPSD: Er mwyn sicrhau bod achosion sydd angen ymateb ar unwaith yn cael eu trin tra bydd y rhai dan amheuaeth yn dal yn y ddalfa gan yr heddlu, gall cyfreithwyr CPS Direct gyhuddo achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonwyd trwy gyfryngau cymdeithasol sy'n dod dan Gategori 4 gyda chaniatâd y CPSD, CCP neu DCCP ymlaen llaw.
- Achosion nad ydynt yn cael cyhuddiad gan CPSD: Mae achosion eraill sy'n cael eu cyfeirio at Ardaloedd CPS cyn cyhuddo, neu eu cyhuddo gan yr heddlu, yn gofyn am ganiatâd gan Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr. Rhaid cael caniatâd hefyd cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i gyhuddo neu pan fydd yr Ardal yn bwriadu symud ymlaen gyda chyhuddiad yr heddlu. Dylai atgyfeiriadau at Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr gael eu cyflwyno yn electronig i fewnflwch y Cynghorydd yn DLA.Team@cps.gsi.gov.uk a dylai'r e-bost gynnwys y canlynol:
 - [i] Y dyddiad cau pan fydd angen ymateb a'r rhesymau am y dyddiad cau.
 - [ii] Yr MG3 yn cynnwys cyngor cyhuddo'r cyfreithiwr sy'n adolygu.
 - [iii] Awgrym clir a yw'r holl dystiolaeth berthnasol ar y CMS neu a oes ffeil bapur ar gael os bydd angen.
 - [iv] Manylion y man cyswllt/cyfreithiwr sy'n adolygu ac URN yr achos.
 - [v] Dylid tynnu sylw at unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau a ddynodwyd neu sy'n bosibl.

Dylai unrhyw fygythiad terfysgol neu gyfathrebiad arall o'r fath gael eu cyfeirio at yr Adran Troeddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth yn ctd@cps.gsi.gov.uk.